CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 26 Chwefror, 2018 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mrs S Edwards, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mrs C A Hulme, (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch).

166 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr P Day, (Benllech B), Mr G Owen, (Llanbedrgoch), Mr I Williams, (Benllech B).

167 DATGANIADAU O DDIDDORDEB.

Derbyniwyd datganiad o Ddiddordeb gan Mrs S Edwards yn ymwneud a mater Ymgynghoriad cyn Ymgeisio, Treetops, Benllech. Roedd Mrs Edwards yn bresennol pan drafodwyd y mater ond ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar y mater.

168 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar y 22ain o Ionawr 2018.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD.

169 CYNGOR SIR YNYS MON – YMATEB I FATERION PRIFFYRDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth – gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Mon a oedd yn ymateb i faterion priffyrdd a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor Cymuned.

170 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

171 LLYWODRAETH CYMRU – FFIOEDD CLADDU PLANT.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Gweinidogion Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru yn ymwneud a ffioedd claddu plant.

172 UN LLAIS CYMRU – AELODAETH 2018/2019.

Cyflwynwyd – gwahoddia i ad-newydduaelodaeth gydag Un Llais Cymru am y flwyddyn 2018/2019, ar gost o £572.

PENDERFYNWYD – cytunwyd i ymaelodi am 2018/2019.

173 GRANTIAU A RHODDION.

Cyflwynwyd - Cais am grant gan y canlynol :-

(i) Seindorf Beaumaris

PENDERFYNWYD – ar sail y pwerau a roddwyd yn Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) ac oherwydd bod y Cyngor o'r farn fod y gwariant yn unol a gofynion yr Adran, cymeradwyo talu :-

(i) Grant o £250 i Seindorf Beaumaris.

TALIADAU A CHYFRIFON

174 BILIAU.

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fon Parry	Gwasanaeth cyfieithu	£126-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
G E Pritchard	Ad-daliad Treth Incwm	£235-02
Anglesey Mowers	Coeden Nadolig	£420-00
Photostatic	Llungopio	£12-60
Un Llais Cymru	Aelodaeth 2018/19	£572-00
G E Pritchard	Costau cynnal swydfa	£156-00

(cynyddwyd taliad Eira Fon Parry o £56 i £126 yn dilyn gwaith cyfieithu ffurflen gais y Clerc newydd ar frys cyn cyfarfod Chwefror)

175 CYFRIFON.

Cyflwynwyd – cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan gynllun dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Ionawr 2018.

PENDERFYNWYD – i nodi'r cyfrif a chytuno'r taliadau.

176 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o 1 Ebrill 2017 i ddiwedd Ionawr 2018.

PENDERFYNWYD – i nodi a chytuno'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

177 SWYDDFA NEWYDD Y CYNGOR CYMUNED YN LLYFRGELL BENLLECH.

Adroddwyd gan y Cadeirydd a'r Clerc hanes cyfarfod gyda swyddogion y Llyfrgell ac Adran Eiddo Cyngor Sir Ynys Mon. Mae cais y Cyngor Cymuned i gael swyddfa o fewn y Llyfrgell ym Menllech wedi ei ganiatau ac mae Trwydded pen agored i'w chwblhau gyda'r termau canlynol :-

1. Rhent blynyddol o £650, i'w adolygu pob tair blynedd.

2. Y Cyngor Cymuned i dalu canran perthnasol o'r Dreth Fusnes a'r Yswiriant.

3. Mae'r Cyngor Sir yn trefnu gwaith cychwynol i letyau offer cyfrifiadur a chypyrddau angenrheidiol.

4. Bydd y Cyngor Cymuned yn gyfrifol am gostau cyfreithiol y ddwy ochr.

5. mae terfynu'r cytundeb yn agored i ddeuddeg mis o rybudd gan naill barti.

178 AMCANGYFRIFON 2018/2019.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – copi diwygiedig o Amcangyfrifon 2018/19 yn dangos y cynnydd o £10,000 at Gynllun Gwella Benllech a benderfynwyd yng nghyfarfod Ionawr 2018.

179 CLERC NEWYDD I'R CYNGOR CYMUNED.

Trafodwyd cais am y swydd o Glerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol i'r Cyngor Cymuned. Gan mai un ymgeisydd yn unig wnaeth gais am y Swydd penderfynwyd ei galw am gyfweliad ffurfiol.

180 AMODAU GWAITH Y CLERC PRESENNOL.

Gan fod y Clerc wedi rhoi rhybudd o'i fwriad i ymddeol fis Mawrth 2018 ym mis Medi 2017 ac nid oedd olynydd wedi ei benodi trafodwyd ei amodau gwaith o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Mae'r cytundeb presennol sydd ganddo am 18 awr yr wythnos, cytunwyd i ymestyn ei oriau i 25 awr yr wythnos fel a drefnwyd ar gyfer y Clerc newydd pen benodi'r. Hefyd penderfynwyd y buasai'n ddelfrydol iddo symud i'r swyddfa newydd o'r 1 Ebrill 2018 neu pan fydd y swyddfa'n barod, pry'un bynnag fydd gyntaf.

CYNLLUNIO

181 CEISIADAU

PENDERFYNWYD – ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn :-

1. Caniatau :

30C592B/VA	Bryntirion Lodge, Brynteg.
30C571/B/VAR	Water's Edge Restaurant, Benllech.
30C821A	104 Lon Conwy, Benllech
30C822/LUC	Dalarna, 1 Fern Hill, Benllech.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-40 yr hwyr.